



Helo, a chroeso i ail e-fwletin Casnewydd Gwyrdd a Diogel!



Caiff y cylchlythyr hwn ei gyflwyno ichi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran partneriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un.



Diolch i'r rheini ohonoch a fynychodd y gweithdy Casnewydd Gwyrdd a Diogel ym mis Tachwedd 2020. Roedd hi'n wych cael y Rhwydwaith yn ôl gyda'i gilydd, a gobeithio bod y gweithdy wedi bod yn ddefnyddiol ichi. Ar hyn o bryd, rwy'n cynllunio dyddiadau ar gyfer tri gweithdy yn 2021, felly cadwch olwg am y manylion.

Os hoffech imi gynnwys unrhyw beth yn e-fwletinau'r dyfodol, cofiwch gysylltu a rhoi gwybod imi. Rwyf yma i'ch helpu i hyrwyddo eich prosiectau unrhyw adeg, felly cofiwch anfon yr wybodaeth ataf.

Harriet Bleach, Swyddog Ymgysylltu Gwyrdd a Diogel harriet.bleach@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Twitter [@harriet_bleach](https://twitter.com/harriet_bleach)

Diweddaru Mannau Gwyrdd a Diogel



Yng ngoleuni Covid-19 a'r angen i ymgorffori argymhellion yr Adferiad Gwyrdd (mwy o wybodaeth am hyn isod), ar hyn o bryd rydym yn diweddaru'r ymyriad Mannau Gwyrdd a Diogel a'i amcanion. Mae Cynllun Gweithredu presennol y Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel, a luniwyd yn 2019, hefyd yn rhan o'r cyddestun ehangach a ddefnyddir fel canllaw yn ystod y diweddariad hwn, a byddaf yn rhannu'r canlyniadau gyda chi yn ystod y

misoedd nesaf.

Gweithdy nesaf y Rhwydwaith

Rwy'n gobeithio cynnal gweithdy nesaf y Rhwydwaith yn ystod mis Mawrth neu fis Ebrill, er mwyn rhoi lle inni ryngweithio a chlywed am brosiectau'r naill a'r llall. Hefyd, hoffwn wneud yn fawr o'r cyfle i bob un ohonom ddiweddaru Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith, unwaith eto yng ngoleuni Covid-19 a heriau eraill, ac anelu at wneud y canlynol:

- adeiladu ar y nifer o bobl sy'n sylweddoli beth yw gwerth mannau gwyrdd;
- archwilio'r ffyrdd y gall ein gwaith gyfrannu at adferiad gwyrdd; ac
- adeiladu momentwm o ran ein gwaith ar yr agenda hon wrth symud ymlaen

Prosiectau ar draws Casnewydd

Heb os nac oni bai, mae llawer mwy o brosiectau'n cael eu cynnal o gwmpas Casnewydd, a buaswn wrth fy modd yn clywed gennych fel y gallaf eu cynnwys yn e-fwletinâu'r dyfodol. Dyma'r diweddaraaf am rai prosiectau.



Rhandiroedd Stryd Portland, Pilgwenlli

Mae ambell newid cyffrous wedi dod i ran y rhandiroedd hyn, a oedd gynt wedi tyfu'n wyllt. Mae llwybr hygyrch newydd wedi'i greu, mae cynhwysydd dur y gall y gymuned ei ddefnyddio i storio wedi cael ei osod, ac mae'r wyth plot rhandir yn dod yn eu blaen yn dda.

Mae nifer o grwpiau wedi cyfrannu at greu'r prosiect cyffrous hwn i drawsnewid y safle yn fan cymunedol awyr agored gwyrdd, llewyrchus.

Cafwyd cymorth parhaus gwych gan yr Hwb Canolog, Pill Unity, Cymdeithasau Tai Lleol (Pobl, Cartrefi Dinas Casnewydd a Cartrefi Melin), Fusion Culture & Arts, Dechrau'n Deg, DP Mowers, Cadwch Gymru'n Daclus, Cymdeithas Cymuned Yemeni Casnewydd, Exclusive Landscapes, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Siemens a thrigolion yr ardal. Heb gymorth yr holl bartneriaid hyn, ni fyddai'r prosiect wedi bod yn bosibl.

Yn union y tu allan i'r ardd gymunedol mae coed afalau wedi cael eu plannu gyda Cadwch Gymru'n Daclus. Bydd y berllan hon yn fan tawel, gyda meinciau y gall y

trigolion eistedd arnynt er mwyn ymdoddi'n llwyr i fyd natur. Edrychwn ymlaen at weld y llecyn hwn yn datblygu ymhellach yn ystod y misoedd nesaf.

Rhagnodi Gwyrdd

Mae Tîm Pobl a Lleoedd De Ddwyrain Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynorthwyo [Rhwydweithiau Lles Integredig](#) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan mewn perthynas â phrosiectau i gwmpasu a threalu Rhagnodi Gwyrdd yng Nghasnewydd. Mae Rhwydweithiau Lles Integredig Casnewydd yn cydweithio gyda Coed Lleol wrth iddynt gwmpasu'r llwybrau mwyaf effeithiol ar gyfer ymyriadau gwyrdd yn y ddinas. Yn y cyfamser, [cewch fwy o wybodaeth am Coed Lleol yma](#).



Partneriaeth Natur Lleol Sir Fynwy a Chasnewydd



Credyd Llun: Chris Harris/Living Levels Partnership.

Mae Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd wedi'i sefydlu er mwyn adeiladu ar waith llwyddiannus y bartneriaeth flaenorol (sef Partneriaeth Bioamrywiaeth Casnewydd) ac ymestyn cwmpas y gwaith cydlynol a wneir er budd natur fel y gellir cynnwys y sir gyfagos, sef Sir Fynwy.

Bydd Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd yn mynd i'r afael â chamau adfer natur lleol penodol, ar sail gwybodaeth, er mwyn esgor ar amryfal fanteision, yn cynnwys cyfrannu at amcanion llesiant a chefnogi Adferiad Gwyrdd ar ôl y pandemig Covid-19, trwy gynnig cyngor a chymorth arbenigol a sicrhau bod y camau gorau'n cael

eu cymryd mewn lleoliadau addas er mwyn esgor ar amryfal fanteision i bobl a bywyd gwyllt.

[Mwy o wybodaeth am y lansiad](#)

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf neu os oes gennych ddi-ddordeb mewn ymuno [@Mon Newport LNP](#)

Adferiad Gwyrdd

Mae tasglu Adferiad Gwyrdd Llywodraeth Cymru, dan arweiniad Syr David Henshaw, cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, [wedi cyhoeddi ei adroddiad](#) yn nodi'r blaenoriaethau y dylid bwrw ymlaen â nhw fel rhan o adferiad gwyrdd Cymru ar ôl y pandemig Covid-19.



- Lleihau allyriadau carbon a gwella'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid

hinsaw

- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chysylltu pobl a natur
- Cyfrannu at y dasg o fynd i'r afael â lefelau cynhyrchu a lefelau defnyddio anghynaliadwy trwy ddefnyddio adnoddau cyn hired â phosibl, osgoi pob gwastraff a throi at ddewisiadau mwy cynaliadwy.
- Creu swyddi, meithrin sgiliau a marchnadoedd newydd
- Sicrhau bod y grwpiau, y cymunedau a'r lleoedd sydd fwyaf agored i niwed yn cael blaenoriaeth wrth ymdrin ag amddifadedd ac anghydraddoldebau sylfaenol

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r dasg o arwain yr Adferiad Gwyrdd mewn awdurdodau lleol ledled Cymru i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un yn anelu at ymgorffori'r blaenoriaethau hyn yn y Cynllun Llesiant diweddaraf, ac yn arbennig yn fersiwn 'ddiweddaraf' yr ymyriad Gwyrdd a Diogel

Credyd Llun: Chris Harris/Living Levels Partnership

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn olaf, [cliciwch yma i weld yr e-friff newydd, Cyfleoedd Gwyrdd](#) gan Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r diweddariadau chwarterol yn cynnwys gwybodaeth a all gynorthwyo adferiad gwyrdd Cymru ar ôl Covid-19, a phennir cyfleoedd cynaliadwy i gynorthwyo iechyd y boblogaeth.

Hyfforddiant



Credyd Llun: Chris Harris/Living Levels Partnership.

Llysgenhadon Lefelau Byw

Mae'r Rhaglen Lefelau Byw wedi rhoi prosiect newydd a chyffrous ar waith ar gyfer 2021 i greu pecyn cymorth ymdeimlad o le a chyflwyno **rhaglen hyfforddi llysgenhadon** i hyrwyddo tirwedd fendigedig Gwastadeddau Gwent. Mae'r prosiect yn anelu at wneud y canlynol:

- Manteisio i'r eithaf ar berchnogaeth gymunedol a dealltwriaeth ehangach o nodweddion arbennig Gwastadeddau Gwent trwy ddatblygu pecyn cymorth ymdeimlad o le.
- Cynnig croeso cydlynol i'r rhai a fydd yn ymweld â'r Gwastadeddau trwy roi hyfforddiant a chymorth i fusnesau twristiaeth, staff cyfleusterau 'blaen y tŷ', gwirfoddolwyr a llysgenhadon, yn cynnwys prif hybiau a hybiau cysylltiedig, â'r hyn sydd gan y Gwastadeddau i'w gynnig a'r ffordd orau o archwilio'r ardal.
- Annog busnesau i hyrwyddo ymdeimlad o le trwy eu dulliau cyfathrebu a marchnata eu hunain.

Rydym yn awyddus i wirfoddolwyr, rheolwyr gwirfoddolwyr, staff 'blaen y tŷ', aelodau'r gymuned a busnesau lleol gymryd rhan yn ein hyfforddiant llysgenhadon – fe fydd hyn o fudd iddyn nhw a hefyd i'r ymwelwyr y maent yn darparu ar eu cyfer trwy wneud defnydd o'r pecyn cymorth i arddangos yr adnoddau gwych sydd gan Wastadeddau Gwent i'w cynnig.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy, neu os hoffech gymryd rhan, cysylltwch ag Elinor elinor.meloy@rspb.org.uk

Cyrsiau Cyfoeth Naturiol Cymru

Bydd CNC yn cynnal gwahanol gyrsiau'n ymwneud â sut i ddefnyddio'r awyr agored i gynorthwyo eich plentyn i ddatblygu, dysgu a chwarae:

- Iach a Hapus – yn Naturiol! Gwella iechyd a llesiant dysgwyr trwy gysylltu â natur
- Plentyndod Naturiol – Blynyddoedd Cynnar yn yr Awyr Agored (ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr cyn oed ysgol a dysgwyr y cyfnod sylfaen)
- Mae Mawn yn Anhygoel! Does dim yn 'arferol' am gorsydd – yn wir, maen nhw'n anhygoel (wedi'i anelu at addysgwyr Cyfnodau Allweddol 2/3)

I gael rhagor o wybodaeth ac i neilltuo lle, ewch i wefan [Tocyn Cymru](#).

Y Cynllun Datblygu Lleol – Dweud eich dweud



Y Cynllun Datblygu Lleol yw cynllun datblygu Casnewydd. Hwn sy'n sail i gynllunio defnydd tir o fewn ardal weinyddol y cyngor a bydd ar waith rhwng 2021 a 2036.

Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn awr ynglŷn â dwy o ddogfennau hollbwysig y Cynllun Datblygu Lleol – sef yr *Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflawni*. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 5 Mawrth 2021.

[Cewch fwy o wybodaeth a chyfle i ddweud eich dweud yma.](#)

Cyfeiriadur Seilwaith Gwyrdd

Fel rhan o gamau cyntaf yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un yn defnyddio cyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gasglu gwybodaeth am fannau gwyrdd ledled Casnewydd. Gweld pa seilwaith gwyrdd sydd i'w gael eisoes, ble mae seilwaith o'r fath yn brin, beth yw ei werth o ran bioamrywiaeth, a beth yw ei gyflwr.



Defnyddir yr wybodaeth hon i lywio penderfyniadau cynllunio, anelu at amddiffyn mannau gwyrdd rhag cael eu dymchwel, cyfrannu at y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, a'n helpu i ganolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu mannau gwyrdd a gwella'u hansawdd ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf.

Yn y dyfodol, ein nod yw sicrhau y bydd yr wybodaeth hon ar gael yn eang trwy ap neu borth ar-lein, a thrwy adnoddau all-lein, er mwyn i bobl allu gweld beth sydd ar garreg eu drws a gwella'u hiechyd a'u llesiant.

Diogelwch a mannau gwyrdd

Rydym hefyd yn archwilio sut y gallwn wneud defnydd gwell o ddata rhwng Cyngor Dinas Casnewydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub a Taclo Tipio Cymru i gael gwell darlun o'r pethau sy'n digwydd mewn mannau gwyrdd er mwyn ein helpu i ganolbwyntio ein hymdrechion a gweithio gyda'n gilydd i wneud y mannau hyn yn fwy diogel a lleihau'r rhwystrau.

Cyllid



Cronfa Dreftadaeth y Loteri:

- [Lleoedd Lleol i Natur](#) er mwyn helpu cymunedau yng Nghymru i adfer a chyfoethogi natur. Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau: Mawrth 2021.
- [Coetiroedd Cymunedol](#) er mwyn adfer, creu, cysylltu a rheoli coetiroedd. Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau: 21 Hydref 2021.

Credyd Llun: Chris Harris/Living Levels Partnership.

Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru 19-23 Ebrill 2021



Cadwch olwg ar y wefan uchod i gael y diweddaraf am weithgareddau sydd wedi'u trefnu ar gyfer Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored [@ OLW](#)

Cewch ragor o wybodaeth am [Rwydwaith Dysgu yn yr Awyr Agored Casnewydd yma](#).

Natural Resources Wales

[Website](#) | [Contact us](#)



Subscription Management

[Manage my preferences](#) | [Unsubscribe](#) | [Privacy Policy](#) | [Help](#)

